


**Sirajul Islam**

| | |
|---|---|
| Ganwyd: | Bangladesh |
| Priodi: | Mary - merch o Aberteleri 1979. Ysgaru yn 1995. |
| Plant: | Pedwair merch ac un mab |
| Gwaith: | Gweithio mewn tai bwyta Indian a datblygu i fod yn berchennog Taj Mahal yn  Abertawe a Chaerdydd. Bellach wedi ymddeol. |
| Symud i Gymru: | 1963 fel mewnfudwr economaidd |
| Dysgu Cymraeg: | 1999 i ddweud “Diolch yn fawr Cymru” gan ei fod yn teimlo fel Cymro gant y cant. Sefyll arholiad TGAU a lefel A. Mynychu cyrsiau fel Tafod Iaith gyda gwen Aubrey yn y brifysgol. Bellach yn astudio Gradd yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd. |
| Byw: | Penarth (ble roedd Saunders Lewis yn byw a ble mae bedd Joseph Parry). |

Mae Sirajul Islam yn mwynhau darllen nofelau Cymraeg ac mae’n uniaethu gyda nofelau Kate Roberts oherwydd mae caletwch bywyd a’r sefyllfaeodd a ddisgrifir yn ei nofel fel Traed Mewn Cyffion yn atgoffa Sirajul o’i fagwraeth yn Bangladesh: y tlodi; y gormes a’r dioddefaint.

Trwy ddarllen nofelau Cymraeg mae Sirajul hefyd wedi dysgu llawer am yr iaith ac am hanes a diwylliant Cymru.

Collodd Sirajul ei addysg drwy wneud ei ddyletswydd i’w deulu a ennill arian. Cafodd y cyfle i wireddu ei freuddwyd yng Nghymru ac chyflawni popeth.

Mae Sirajul yn hoff o gymdeithasu yn y Gymraeg ac mae’n aelod o gymdeithas Gymraeg Penarth a Phlaid Cymru.



**Mererid Hopwood**

| | |
|---|---|
| Geni: | 1964. Caerdydd |
| Magwyd: | Caerdydd |
| Ysgol: | Ysgol gynradd Bryntaf<br>Ysgol Gyfun Llanhari<br>Aberystwyth a Llundain |
| Diddordebau: | Barddoniaeth: clywed, darllen, ceisio creu a dysgu.<br>Gwersylla: mewn pabell. |
| Hoff fwyd: | Siocled |
| Hoff gan: | Unrhyw beth gan Meic Stevens, unrhyw beth sy’n cael ei ganu gan Bryn Terfel a ‘Three Little Birds’ gan Bob Marley. |
| Hoff ffilm: | The Sound of Music oedd un o’r ffilmiau cyntaf i mi ei gweld, ac mae’n ffefryn o hyd. |
| Hoff atgof: | Un o’m hoff atgofion yw mynd mas yn y cwch ‘Glas y Dorlan’ a dala mecryll pan oeddwn i’n fach. |
| Hoff le: | Pontiago – mae’n lle hudolus heb nac arwydd na siop.<br>Beth – nid Caerdydd! |

Mae Mererid wedi ennill cadair – y ferch gyntaf erioed i wneud hynny – a choron yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae newydd gyhoeddi llyfr i blant o’r enw Yr Ynys Hud ac mae hefyd wedi golygu nifer o lyfrau. Gellir darllen rhai o’i cherddi yn y gyfrol Byd Llawn Hud.

Mererid Hopwood oedd Bardd Plant Cymru 2005–2006.



| | |
|---|---|
| Enw: | **Lisa Jarman** |
| Geni: | 1970 Glossop Terrace, Caerdydd |
| Magwyd: | Stryd Alfred, Y Rhath, Caerdydd<br>Llanedyrn, Caerdydd<br>Penylan, Caerdydd<br>Mam-gu yn byw yn Y Waun |
| Bedyddiwyd: | Llysfaen, Caerdydd |
| Ysgol: | Ysgol gynradd Bryntaf<br>Ysgol Gyfun Glantaf<br>Coleg Cerdd a Drama, Caerdydd |
| Plant: | Un ferch sydd wedi cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghaerdydd |
| Gwaith: | Clwb Ifor bach<br>Cyfryngau rhan helaeth trwy gyfrwng y Gymraeg |

Yn ol profiad Lisa, roedd byw a siarad Cymraeg yn LLanedyrn yn dra gwahanol i fyw ym Mhenylan.



| | |
|---|---|
| Enw: | **Daniel Glyn** |
| Geni: | Caerdydd 1969 |
| Ysgol: | Ysgol Gynradd Bryntaf<br>Ysgol Gyfun Glantaf |
| Gwaith: | Comediwr |
| Record cyntaf a brynwyd: | Doug E Fresh - The Show |
| Dy arwr/arwres: | Freddie Starr |
| Sut yr hoffai gael ei gofio: | Yn flynyddol, Mawrth y cynta os yn bosib. |
| 'Crush' cyntaf: | Janet Ellis |
| Pebai'n far o siocled, pa un: | Chomp. Rhad a blasus**.** |
| Dathliad gorau: | Gwlychu pen fy mhlentyn yn nhafarn fy ffrind. |



| | |
|---|---|
| Enw: | **Huw Onllwyn Jones** |
| Geni: | Caerdydd 1959 |
| Ysgol: | Ysgol Gynradd Bryntaf<br>Ysgol Gyfun Rhydfelen |
| Gwaith: | Pennaeth yr iaith Gymraeg a Uned polisi y Cyfryngau,<br>Cynulliad Cymru [2009] |

… "yn synhwyro'n weddol gynnar mod i'n wahanol i'r plant erill, am mai fi oedd yr unig un oedd yn gallu siarad Cymraeg."



| | |
|---|---|
| Enw: | **Llinos Thomas Davies** |
| Geni: | Caerdydd |
| Ysgol: | Ysgol gynradd Bryntaf<br>Ysgol Gyfun Glantaf |
| Gwaith: | Cyfryngau |

“ …o ran siarad yr iaith nes i ga’l magwr’eth ‘itha cysgodol mewn ffor’ rhag y Saesneg achos o’dd ‘yn teulu ni yn Gymry …cenedlaetholwyr mewn ffor’…”



| | |
|---|---|
| Enw: | **Heledd Wyn** |
| Geni: | Caerdydd, 1971 |
| Ysgol: | Ysgol gynradd Gwaelod y Garth a Bryntaf<br>Ysgol Gyfun Glantaf |
| Gwaith: | Celfyddydau: ffilm, celf, sgriptiau |
| Diddordebau: | Delweddau, lliwiau, pobl, garddio, unrhywbeth yn agos at y dwr neu gerddoriaeth. |

"…dwi'n gweld bod newid a datblygiad mawr wedi bod yn yr iaith yng Nghaerdydd – mae llawr mwy o ofyn am addysg cyfrwng Cymraeg a llawr mwy o statws ac ymwybyddiaeth iddi"